

# Hysbysiad Cyhoeddus

O 2 Rhagfyr 2019, bydd aelwydydd digartref gyda phlant a phobl ifanc yn gymwys i dderbyn y ddyletswydd tai gyflawn hyd yn oes yw'r ymgeisydd yn ddigartref yn fwriadol. Gelwir hyn yn borth a 75(3).

Mae ymgeisydd yn ddigartref yn anfwriadol os gwnaethant neu na wnaethant rywbeth roedden nhw'n gwybod a allai arwain at fod yn ddigartref.

Yr aelwydydd a effeithir arnynt gan y newid hwn yw:

1. Unigolyn sydd â phlentyn dibynnol yn byw gyda nhw, neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddynt fyw â nhw.
2. Dynes feichiog neu berson y mae hi'n byw gyda nhw, neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddynt fyw â nhw.
3. Unigolyn a oedd dan 21 oed pan wnaed y cais digartrefedd, neu unigolyn y mae'r person ifanc yn byw gyda nhw neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddynt fyw gyda nhw.
4. Unigolyn a oedd rhwng 21 a 24 oed pan wnaed y cais digartrefedd, a oedd yn derbyn gofal, llety neu'n cael ei faethu dan 18 mlwydd oed, neu unigolyn y mae'r person ifanc yn byw gyda nhw neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddynt fyw gyda nhw.

Mae hyn yn golygu y bydd dyletswydd adran 75 am bob un o'r ymgeiswyr sy'n perthyn i unrhyw un o'r pedwar categori uchod, hyd yn oed os yw'r cyfnod presennol o ddigartrefedd yn fwriadol.

## **Fodd bynnag:**

Mae'r cyngor wedi penderfynu gweithredu'r gosb 'ailadrodd digartrefedd bwriadol' dan adran 78 ac SI 2015 Rhif 1265

## **Ailadrodd digartrefedd bwriadol o fewn 5 mlynedd**

Ni fydd dyletswydd llawn am yr ymgeisydd os cynigiwyd llety iddynt yn flaenorol gan y cyngor dan y ddyletswydd a. 75 llawn, yn y pum mlynedd diwethaf, lle'r oedd yr ymgeisydd yn ddigartref yn fwriadol ac ond yn gymwys am y brif ddyletswydd oherwydd y porth a.75(3).

**Ni** fydd y brif ddyletswydd yn ddyledus am yr ail dros os:

- Yw'r cyngor wedi penderfynu ystyried a yw'r digartrefedd ar gyfer person ag angen blaenoriaethol
- Oedd cynnig blaenorol o lety a sicrhawyd gan y cyngor dan y ddyletswydd tai a.75 llawn yn dilyn cais digartrefedd blaenorol dan Ddeddf 2014.
- Wnaed y cynnig yn ystod y pum mlynedd diwethaf, a
- Gwnaed y cynnig ar y sail fod yr ymgeisydd o fewn a.75(3) (Bwriadol ddigartref ond yn gymwys ar gyfer dyletswydd tai llawn oherwydd fod aelwydydd yn ddigartref gyda phlant a phobl ifanc)

**Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch chi am hyn gallwch siarad â Swyddog Atal Digartrefedd neu, i gael cyngor annibynnol, cysylltwch â Shelter Cymru**



Cyngor annibynnol, eiriolaeth a chynrychiolaeth gyfreithiol. Ar gael i unrhyw un gydag anghenion tai, sy'n ddigartref neu'n wynebu digartrefedd neu'n byw mewn tai sydd mewn cyflwr gwael.

☎ 01745 361444    💻 [www.sheltercymru.org.uk](http://www.sheltercymru.org.uk)  
📧 Uned 5, Adeilad yr Orsaf, Stryd Bodfor, Y Rhyl LL18 1AT

Yn ystod yr wythnos 10.00 a.m.– 2:00 p.m. **Dydd Mercher**    **Ar gau**